## Diwedd Tymor yr Hydref

Wrth i ni gyrraedd diwedd tymor yr Hydref, hoffwn estyn fy niolchiadau diffuant i holl aelodau ein cymuned ysgol am eich cefnogaeth barhaus ers mis Medi. Llongyfarchiadau i'n disgyblion am eu perfformiadau gwych yn y cyngherddau Nadolig – rwy'n falch iawn o bob un ohonoch chi! Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb. Mwynhewch y Nadolig gan obeithio cewch amser i ymlacio gyda'ch teulu a'ch ffrindiau. Hoffwn eich atgoffa bod gennym ddiwrnod HMS ar ddydd Llun, 5ed o Ionawr, ac felly bydd yr ysgol yn ailagor ar ddydd Mawrth, y 6ed o Ionawr. Nadolig Llawen!

## The end of the Autumn Term

As we reach the end of the Autumn term, I would like to extend my heartfelt thanks to all members of our school community for your continued support since September. Congratulations to our pupils for their fantastic performances in the Christmas concerts – you made us all proud! We wish everyone a very merry Christmas and a happy New Year filled with joy and peace. Please enjoy the festive break and take time to relax with family and friends. I would like to remind you that we have an INSET on Monday, 5th January, and therefore we will re-open our doors on Tuesday 6th. Nadolig Llawen!







## Ffair Nadolig a Raffl Ffrindiau Pwll Coch

Hoffwn ddiolch yn fawr unwaith eto am eich holl gefnogaeth gyda'r Ffair Nadolig a Raffl Ffrindiau Pwll Coch eleni! Codwyd agos at £4,000 rhwng y Ffair a'r Raffl! Llongyfarchiadau mawr i'r enillwyr!

## Christmas Fair and PTA Raffle

I would like to say a big thank you once again for all your support with this year's Christmas Fair and Raffle! Almost £4,000 was raised between both events! Huge congratulations to the winners!

## Diwrnod Siwmperi Nadolig

Diolch yn fawr i'r plant am wisgo siwmper Nadolig yr wythnos ddiwethaf i gefnogi apêl Gaza yr elusen Achub y Plant. Diolch hefyd i'r staff arlwyo am ddarparu cinio Nadolig blasus yr un diwrnod – fe wnaeth pawb ei fwynhau'n fawr iawn!

## Christmas Jumper Day

A huge thank you to all the children for wearing their Christmas jumpers last week to support Save the Children's Gaza Appeal. We would also like to express our gratitude to the catering staff for providing a delicious Christmas dinner on the same day – it was enjoyed by everyone!







## Gwobrau Seiclo Caerdydd




Roeddwn yn falch iawn i fynychu Gwobrau Seiclo Caerdydd wythnos diwethaf a dysgu bod Ysgol Pwll Coch wedi ein cydnabod fel yr ysgol sydd yn gwneud y mwyaf i hyrwyddo seiclo i'r ysgol! Hoffwn ddiolch o galon i Claire a phob aelod o gymuned yr ysgol sydd wedi cyfrannu at lwyddiant ein Bws Beics!

## Cardiff Cycling Awards

I was very pleased to attend the Cardiff Cycling Awards last week and learn that Ysgol Pwll Coch has been recognised as the school doing the most to promote cycling to school! I would like to extend a heartfelt thanks to Claire and every member of the school community who has contributed to the success of our Bike Bus! Diolch.

## Carolau Nadolig



Mae'r côr wedi bod yn brysur yn canu carolau ym mhob cwr o'r gymuned yr wythnos hon! Da iawn chi am gynrychioli'r ysgol yn wych.

**Codwyd £201**

## Christmas Carols

The choir has been busy singing carols in every corner of the community this week! Well done for representing the school so brilliantly.

### Newidiadau i drefniadau Clwb Brecwast i ddisgyblion y Feithrin/ Cylch Meithrin

O fis Ionawr, byddwn yn cynnal ein Clwb Brecwast i ddisgyblion y Feithrin yng nghaban y Cylch Meithrin yn hytrach na'r neuadd ginio. Bydd drysau'r Cylch Meithrin ar agor rhwng 8:05 a 8:25. Diolch yn fawr am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus.

### Changes to Breakfast Club arrangements for Nursery/Cylch Meithrin pupils

From January, we will hold our Breakfast Club for Nursery pupils in the Cylch Meithrin cabin rather than the dinner hall. The Cylch Meithrin doors will be open between 8:05 and 8:25 each day. Thank you very much for your continued cooperation and support.

### Clybiau Allgyrsiol

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r staff a'r gwirfoddolwyr sydd wedi rhoi o'u hamser i ddarparu clybiau allgyrsiol amrywiol yn ystod y tymor. Diolch hefyd i'r disgyblion am eich brwdfrydedd! Byddwn yn rhannu amserlen newydd gyda chi yn ystod wythnos gyntar tymor y Gwanwyn.

Extra-Curricular

I would like to say a big thank you to the staff and volunteers who have given their time to provide a variety of extra-curricular clubs during the term. Thanks also to the pupils for your enthusiasm! We will share a new timetable with you during the first week of the Spring term.

| **Dyddiadau HMS 2025-26 INSET Dates** |
|---|
| Dydd Llun / Monday 05/01/26 |
| Dydd Llun / Monday 13/04/26 |
| Dydd Llun / Monday 20/07/26 |
| Am restr o ddyddiadau tymor ysgol 2025-26, cliciwch yma!<br>For a list of 2025-26 term dates, click here! |

| **Teithiau Preswyl 2025-26 Residential Trips** |
|---|
| Blwyddyn 4 – Bae Caerdydd/ Cardiff Bay<br>15/01/26 - 16/01/26 |